*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **16/07/2018** |
| Swyddog Arweiniol | **Simon Smith, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Penodi Swyddog Monitro/Clerc a Dirprwy Glerc** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Ceisio cael cymeradwyaeth yr aelodau i ddechrau ar broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu Swyddog Monitro/Clerc a Dirprwy Glerc i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Mae'r contract presennol ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc i'r Awdurdod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Felly bydd angen i'r Awdurdod ddechrau ar broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu'r swyddi hyn o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen.

3. Dan delerau cyfansoddiad yr Awdurdod, rhaid i'r Awdurdod llawn gymeradwyo penodi'r swyddog monitro ar ôl i bwyllgor argymell penodiad o'r fath a chyn cynnig penodiad iddo ef neu hi.

**ARGYMHELLION**

4. Bod yr aelodau'n nodi'r gofyniad statudol i'r Awdurdod benodi swyddog monitro, ac yn cymeradwyo dechrau ar broses gaffael gystadleuol ar gyfer darparu swyddog monitro/clerc a dirprwy glerc o'r 1 Ebrill 2019 ymlaen. Dylai'r aelodau nodi y bydd angen i'r Awdurdod llawn gymeradwyo'r penodiad, a hynny yn unol â'i gyfansoddiad.

**CEFNDIR**

5. Cafodd swydd statudol swyddog monitro ei sefydlu gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 fel y diwygiwyd gan Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

6. Mae tri prif faes cyfrifoldeb i swydd swyddog monitro/clerc, sef:

   a. sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau gan ystyried yn briodol pa mor gyfreithlon a theg yw'r prosesau gwneud penderfyniadau, cefnogi'r pwyllgor safonau ac ymdrin â materion yn ymwneud â'r cod ymddygiad;

   b. sicrhau bod cyfarfodydd yr Awdurdod yn cael eu gweinyddu yn unol â statudau perthnasol, rheoliadau a'r cyfansoddiad, ac ymdrin â materion cyfreithiol a gweithdrefnol;

   c. sicrhau bod y cyfansoddiad yn parhau'n gyfoes a pherthnasol, a chynghori ynghylch dehongli'r cyfansoddiad pan fo angen;

   d. sicrhau trefniadau cyfreithiol ar gyfer llywodraethu a phrosesau democrataidd, gan gynnwys ar gyfer:

      - cadw cofrestr o fuddiannau'r aelodau;
      - rhoi cyngor a hyfforddiant i'r aelodau am faterion cyfansoddiadol;
      - paratoi cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau; a
      - materion perthnasol eraill fel bo'r angen, megis mynychu cyfarfodydd gweithgorau cynllunio a chymryd rhan yn y broses o benodi prif swyddogion.

7. Mae'r gofyniad i'r Awdurdod gael swyddog monitro yn un statudol. O'r blaen mae'r swyddogaeth wedi cael ei chaffael gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer gwasanaethau ei Brif Weithredwr, Colin Everett a Phennaeth ei Wasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fel dirprwy. Mae'r cyfnod cyfredol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.

**GWYBODAETH**

8. Yn ôl rheolau sefydlog contractau'r Awdurdod, rhaid dilyn egwyddorion caffael y sector cyhoeddus. Mae canllawiau a ddaeth gan ymgynghorydd caffael yr Awdurdod yn cadarnhau y bydd rhaid cynnal proses gaffael ffurfiol i sicrhau tryloywder, tegwch a gwerth am arian. Gofynnir am gyngor a chanllawiau pellach yn ystod y broses gaffael ei hun.

9. Mae swydd y swyddog monitro yn mynnu gwybodaeth benodol am drefniadau llywodraeth leol mewn perthynas â llywodraethu, statudau, rheoliadau a'r codau perthnasol. Mae'r broses gaffael yn caniatáu rhoi ystyriaeth lwyr i'r agweddau technegol hyn wrth ddyfarnu'r contract.

10. Bydd y penodiad yn agored i gymeradwyaeth yr Awdurdod Tân ac Achub llawn, yn unol â gofynion ei gyfansoddiad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae trefniadau llywodraethu cadarn yn ffactor allweddol wrth sicrhau bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â'i amcanion llesiant. |
| Cyllideb | Swydd statudol yw hon, a darparwyd cyllideb ar ei chyfer. |
| Cyfreithiol | Mae penodi Swyddog Monitro yn ofyniad statudol. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw effaith. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y broses gaffael yn rhoi ystyriaeth ddyledus i gydymffurfiaeth â'r agweddau hyn. |
| Risgiau | Byddai methu â phenodi yn arwain at sefyllfa lle nad yw'r Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldeb statudol ac y byddai'n agored i her gyfreithiol a risg i'w enw da. |